

Stori'r Llwynog a'r Frân

Fe welodd y frân doc bychan o gaws:
"A!" ebe hi, "ni fydd dim yn haws
Na disgyn arno heb oedi dim
A'i ddwyn i'm coeden i'w fwyta'n chwim."
A chyn y medrech chi gyfri deg
Roedd fry ar y goeden a'r caws yn ei cheg.

Un diwrnod roedd hen frân ddu yn hedfan yn araf uwchben y byd. Yn sydyn gwelodd ddarn o gaws coch, blasus.

A chyn i chi gyfri i ddeg plymiodd i'r ddaear fel saeth. Pigodd y caws gyda'i phig cyn glanio ar gangen yn fodlon braf.

Roedd llwynog yn cerdded o dan y coed,
Y llwynog cyfrwysa' a fu erioed;
Safodd yn sydyn 'r ôl gweld ar y brig
Y frân yn oedi a'r caws yn ei phig.

Y diwrnod hwnnw hefyd roedd llwynog coch, cyfrwys, slei yn cerdded yn araf o dan y goeden. Syllodd. Gwelodd y frân a'r caws coch, blasus yn ei phig.

"Yn wir," meddai ef, "yr wyt ti'n un ddel,
Ni welais erioed aderyn mor ffel,
Dy blu sydd mor raenus, yn sglein i gyd,
A'th ddau lygad gloyw fel perlau drud,
Ond dyna drueni dy fod heb gân,
Peth trist yw aderyn mud, Meistres Bran."

"Helo," meddai'r llwynog yn glen. "O rwyd ti'n ddel. Mae gen ti blu taclus, twt ac, o, mae nhw'n sgleinio fel swllt. Wel wir, mae gen ti ddau lygad crwn fel perlau bach drud. Ond mae'n biti garw nad oes gen ti gân, Meistres Brân."

Meddyliodd hithau: "Rhaid dangos i'r byd
Ac i bob llwynog nad wyf yn fud!"
Agorodd ei phig i roi cân yn awr
A cholodd ei chaws, aeth hwnnw i'r llawr!

Meddyliodd y frân am eiliad neu ddwy. Yna, agorodd ei phig er mwyn dangos i'r llwynog unwaith ac am byth ei bod yn gallu canu.

Yn wir i chi, i lawr â'r caws yn glep i'r llawr. Gan neidio'n sionc, cipiodd y llwynog y caws coch, blasus.

"Diolch. Diolch yn fawr," meddai'r llwynog gan sgrialu ar ei daith.

"O fy nghaws coch, blasus. Daria!" crawciodd y frân yn groch.

"O diolch, diolch," ebe'r cadno coch
A'i gadael hithau i grawcian yn groch.